Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Y tu ôl i'r llenni

## Gweithlu'r diwydiannau creadigol

Hydref 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Y tu ôl i'r llenni

Gweithlu'r diwydiannau creadigol

Hydref 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **8**

**1. Cyflwyniad** .......... **10**

Y cefndir .......... 10

Cylch gorchwyl .......... 12

Casglu tystiolaeth .......... 13

**2. Cyflwr y gweithlu** .......... **14**

Pandemig Covid-19 .......... 14

Hwb i'r diwydiannau sgrin .......... 16

Presenoldeb isel a materion cyllid .......... 17

Y Gymraeg .......... 20

Ein barn ni .......... 22

**3. Cyflog ac amodau gwaith** .......... **25**

Cyflog .......... 25

Amodau gwaith .......... 26

Bwlio ac ymddygiad problematig .......... 27

Iechyd meddwl .......... 28

Ein barn ni .......... 30

**4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** .......... **33**

Data cyfyngedig .......... 35

Ein barn ni .......... 37

**5. Sgiliau a hyfforddiant ....................................................................39**

Gwaith cynllunio tymor hwy ar gyfer sgiliau .................................................. 40

Hyfforddiant ar gyfer y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth .........................41

Darparu adnoddau i feithrin sgiliau .................................................................42

Prentisiaethau ..................................................................................................43

Cyfleoedd gyrfa ............................................................................................... 44

Ein barn ni ........................................................................................................47

**6. Cymorth ehangach ar gyfer y diwydiannau creadigol.......... 50**

Ein barn ni ........................................................................................................ 53

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ..................................55**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..................................57**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae Cymru wedi sefydlu ei hun fel canolfan flaenllaw ar gyfer y diwydiannau creadigol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r sector yn darparu dros 80,000 o swyddi ac oddeutu £4 biliwn yw ei drosiant blynyddol. Mae'n wir yn un o bwerdai economi Cymru ac mae'n gyflawniad y dylai pob un ohonom ymfalchïo ynddo. Er gwaethaf y ffyniant yn y diwydiant yng Nghymru, mae wedi dod yn amlwg bod y diwydiannau creadigol yn stori am ddau ddiwydiant creadigol mewn gwirionedd.

Mae rhan gyntaf y diwydiannau creadigol yn llwyddiant go iawn. Mae'r sector sgrin yng Nghymru, cyn ac ar ôl pandemig Covid-19, wedi tyfu'n sylweddol. Llwyddodd y sector i ymateb yn gyflym yn dilyn y cyfnod clo cychwynnol ac mae'n brysurach nawr nag erioed. Mae hyn yn darparu digon o gyfleoedd gwaith i'r rhai sydd am weithio yn y sector sgrin.

Ar y llaw arall, mae rhan arall y diwydiannau creadigol yn ei chael hi'n anodd. Nid yw'r sectorau celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth wedi adfer yn llawn ers y pandemig. Mae'r adferiad hwn wedi cael ei rwystro gan gostau ynni'n codi i'r entrychion a chynulleidfaoedd yn dychwelyd yn araf (mewn cymhariaeth â'r lefelau cyn y pandemig). Yn anffodus, mae'r cymorth ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'r sectorau hyn, er ei fod i'w groesawu, wedi'i amsugno gan lefelau chwyddiant uwch nag erioed.

Ond nid oes rhaid iddi fod fel hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod â rôl bwysig yn nhwf y diwydiannau creadigol. Mae wedi cymryd camau pwysig i gyflwyno arferion cyflog teg a chyflwr gwaith yn y prosiectau y mae'n eu hariannu. Mae wedi cyflwyno hwyluswyr llesiant i weithio ar gynyrchiadau sy'n helpu i ddarparu cymorth i weithwyr gyda'u hiechyd meddwl. Mae hefyd wedi rhoi cynllun sgiliau ar waith i fynd i'r afael â bylchau yn y sectorau gwahanol. Mae'r holl gamau hyn i'w canmol a'u croesawu. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn nenfwd cymorth ac uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Yn ein hadroddiad, rydym yn nodi nifer o argymhellion a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i sicrhau bod y diwydiannau creadigol yn parhau i dyfu mewn ffordd deg a chynaliadwy.

Yn ystod yr ymchwiliad, yn anffodus clywsom fod bwlio ac ymddygiad amhriodol yn endemig yn y sector sgrin, gan gynnwys yng Nghymru. Y dyddiau hyn, mae'n annerbyniol i unrhyw un fod yn destun ymddygiad o'r fath yn ei weithle. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan ac yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn gallu gwneud hynny heb ofni rhagfarn, bwlio neu wahaniaethu. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag undebau a'r diwydiannau i nodi beth arall y gall ei wneud i adeiladu ar yr ymyriadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud hyd yn hyn.

Clywsom hefyd fod cynllunio a datblygu sgiliau yn aml ar gyfer y tymor yn unig. Er bod ymrwymiad cyllid dwy flynedd Llywodraeth Cymru i'r Gronfa Sgiliau Creadigol i'w groesawu, credwn fod hyn yn darparu sylfaen y mae angen adeiladu arni. Byddai dull mwy tymor hir yn hwb mawr i lif talent y diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan helpu twf y sector dros y blynyddoedd i ddod.

Mae heriau hefyd yn parhau o ran sicrhau y ceir data o ansawdd da i ddeall cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiannau creadigol. Er y bu rhywfaint o welliant yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o'r data sydd ar gael naill ai wedi dyddio neu nid ydynt yn benodol i Gymru. Bydd data gwell, mwy dibynadwy yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu lle i dargedu ei hadnoddau i gefnogi'r diwydiannau creadigol yn hyn o beth.

Dywedodd Maya Angelou, bardd ac actifydd hawliau sifil Americanaidd, y canlynol unwaith:

> *"You can't use up creativity…The more you use, the more you have."*

Dyma sut rydym yn ystyried dyfodol y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Gyda'r ymyriadau cywir, rydym yn gobeithio y bydd mwy o weithwyr yn cymryd rhan ym mhob sector o'r diwydiannau creadigol, gan arwain at ei dwf parhaus. Twf sy'n gynaliadwy, ac yn deg i bawb sy'n dewis gweithio yn y diwydiannau creadigol.



**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod yn nodi cymorth ar gyfer datblygu a chynnal y gweithlu yn y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n cydlynu mentrau i sicrhau bod digon o sgiliau Cymraeg ar gael yn y diwydiannau creadigol. Os nad oes cynlluniau penodol ar waith ar hyn o bryd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid y mae arnynt angen sgiliau Cymraeg i ddatblygu a gweithredu cynllun i gynyddu'r gweithlu Cymraeg yn y diwydiannau creadigol. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag undebau llafur a chwmnïau cynhyrchu, nodi arfer gorau i sicrhau y gall gweithwyr weithio mewn amgylchedd heb wahaniaethu, bwlio a rhagfarn. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis ar ei chynnydd gyda'r argymhelliad hwn. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru adolygu pa adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar sectorau'r celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth i sicrhau setliadau cyflog teg ac amlinellu pa gymorth ychwanegol y gall ei ddarparu. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys darpariaethau ar gyflog teg ac amodau gwaith a'r defnydd o hwyluswyr llesiant yn y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru brif ffrydio cymalau dan gontract ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cytundebau cyllido cynhyrchu i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylid nodi'r defnydd o'r rhain hefyd yn y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod, a'u defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r partneriaid academaidd i amlinellu sut y gall wella'r trefniadau casglu

data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn tri mis ar sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn. ........................................................................................................................................ Tudalen 38

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol ac yn gweithio gyda'r diwydiant i nodi bylchau sgiliau yn y dyfodol. ........................................................ Tudalen 47

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth tymor hwy (y tu hwnt i 2024) a gyllidir ar gyfer datblygu sgiliau yn y diwydiannau creadigol. ........................................................................................................................................ Tudalen 47

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag ysgolion, darparwyr addysg a'r diwydiannau creadigol i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd gyrfa, a bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y diwydiannau creadigol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth 2024 gydag amlinelliad o sut y bydd yn gwneud hyn. ........................................................................................................................................ Tudalen 48

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o gyflwr ariannol lleoliadau celfyddydau yng Nghymru mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth a sefydliadau addas eraill. Dylid cwblhau'r asesiad hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn i ragor o gymorth gael ei ddarparu os oes angen. ................................................. Tudalen 53

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o gyflwr y sector sinema mewn cydweithrediad â Ffilm Cymru. Dylid cwblhau'r asesiad hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn i ragor o gymorth gael ei ddarparu os oes angen. ........................................................................................................................ Tudalen 54

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniadau cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer y Celfyddydau gan Lywodraeth Iwerddon ar yr adeg briodol. ........................................................................................................................ Tudalen 54

# 1. Cyflwyniad

## Y cefndir

**1.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r diwydiannau creadigol wedi bod yn un o'r sectorau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Mae cynhyrchu ffilm a theledu wedi bod yn faes twf arbennig o uchel. Rhwng 2017 a 2021, tyfodd trosiant yn y diwydiannau sgrin 72 y cant i £575 miliwn.[1]

**2.** Dyma'r prif ffeithiau[2] am y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2019:

- Mae 8,600 o fentrau'n[3] weithgar yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2019. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd 8 y cant mewn cymhariaeth â 2017;
- Mae 84,500 o bobl yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru (fel cyflogeion a gweithwyr llawrydd), cynnydd tua 5.6 y cant mewn cymhariaeth â 2017;
- Mae 500 o fentrau newydd yn ymuno á'r diwydiannau creadigol yng Nghymru bob blwyddyn;
- Mae 99 y cant o'r cwmnïau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn fach, ac yn cyflogi llai na 50 o bobl.
- Cyfanswm trosiant amcangyfrifedig diwydiannau creadigol Cymru yw £4 biliwn yn 2019, sef 5 y cant o gyfanswm CMC Cymru. Mae tua 58 y cant o hyn wedi'i ganoli ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.[4]

**3.** Er bod cynhyrchu ffilm a theledu wedi bod yn faes twf arbennig o uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, codwyd pryderon am brinder sgiliau posibl yn

[1] Llywodraeth Cymru: Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 25 Ebrill i 6 Mai 2022 – 2 Hydref 2023
[2] Mae'r data hyn yn seiliedig ar gategoreiddio'r diwydiannau creadigol mewn naw prif sector: hysbysebu a marchnata; pensaernïaeth; crefftau; ffasiwn dylunio a dylunwyr; ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol; cyhoeddi; amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd; a cherddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol
[3] Diffinnir mentrau fel prosiectau, busnesau neu gwmnïau.
[4] Clwstwr: Y diweddaraf am yr adroddiad: Maint a chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2019 - Ionawr 2021

cyfyngu ar dwf yn y diwydiannau sgrin yn ôl yn 2018[5]. Cafodd y pryderon hyn eu hailadrodd codi am brinder posibl mewn yn adroddiad Arolwg Sgrin Cymru 2021 gan Brifysgol De Cymru, a Cymru Greadigol (sef is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru).[6] Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai "…corff sgiliau creadigol newydd yn cael ei gyflwyno'n fewnol drwy Cymru Greadigol".[7] Ers hynny, mae economi Cymru wedi dioddef sioc Brexit, Covid-19 a'r argyfwng costau byw.[8]

**4.** Gall y prif ystadegau ar gyfer y diwydiannau creadigol yn fwy cyffredinol weithiau guddio'r anawsterau y mae is-sectorau, yn enwedig cerddoriaeth fyw a theatr, yn eu hwynebu. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth wedi dweud y canlynol o'r blaen:

> *"Recovery within the live music industry post pandemic has been sluggish. Reduction in activity and venue closure will continue and multiply this cycle of resource loss."*[9]

**5.** Ar 15 Tachwedd 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn datblygu Strategaeth Ddiwylliant i Gymru[10]. Bydd cwmpas y strategaeth yn cynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, a'r amgylchedd hanesyddol, a bydd yn edrych ar y ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru gefnogi a datblygu'r sectorau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r Strategaeth gael ei datblygu erbyn diwedd 2023[11].

---

[5] Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Pumed Senedd: Ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru – Mai 2019 [PDF 693KB]

[6] Prifysgol De Cymru: Arolwg Sgrin Cymru 2021 – Chwefror 2022

[7] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Corff Sgiliau Creadigol newydd i Gymru – 16 Medi 2021

[8] Ymchwil y Senedd: Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr: a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i dyfu diwydiant y sgrin ddomestig? – 27 Mai 2021

[9] Ymgynghoriad y Pwyllgor: CIFW05 Music Venue Trust (Saesneg yn unig) – Medi 2022 [PDF 381KB]

[10] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Datblygu Strategaeth Ddiwylliant i Gymru – 15 Tachwedd 2022

[11] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 18 Ionawr 2023, paragraff 49

**6.** Galwodd nifer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad ar y blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd[12] (a gynhaliwyd yn ystod haf 2021) i'r Pwyllgor edrych ar weithlu'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys Uned yr Economi Greadigol ym Mhrifysgol Caerdydd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**7.** Cafodd pandemig COVID-19 effaith anghymesur ar weithwyr llawrydd, sef hanner gweithlu'r sector diwylliannol yng Nghymru yn ôl amcangyfrifon[13]. Mae adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022 gan un o gyrff y diwydiant, sef Llawryddion Celfyddydol Cymru, yn cynnwys nifer o gasgliadau ysgytwol. Yn eu plith y mae'r ffaith bod bron chwarter y gweithwyr llawrydd yn dal i fod yn ansicr a fyddant yn aros yn y diwydiant neu'n gadael.[14]

## Cylch gorchwyl

**8.** Cyhoeddwyd cylch gorchwyl yr ymchwiliad ar 19 Gorffennaf 2022. Gwnaethom ofyn y canlynol i'r rhanddeiliaid:

- Beth yw cyflwr presennol gweithlu'r sector, gan gynnwys effeithiau'r pandemig, Brexit a'r argyfwng costau byw? A yw gweithwyr wedi gadael y sector, a pha effaith y mae hyn wedi'i chael?
- Pa mor sefydlog yw'r sector yn ariannol a pha mor addas yw'r cyflog a'r amodau gwaith?
- Pa mor gyfartal, amrywiol a chynhwysol yw'r sector? Sut y mae hyn yn gallu cael ei wella?
- Pa mor ddigonol yw'r sgiliau a chyfleoedd hyfforddi? A oes bylchau, a sut y dylid eu llenwi?
- Beth fu effaith cymorth gan gyrff cyhoeddus megis Llywodraeth Cymru, ac a oes angen rhagor o gymorth?

[12] Ymgynghoriad y Pwyllgor: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd
[13] Llawryddion Celfyddydol Cymru: Ar Lwybr Adferiad? – Ionawr 2022
[14] Llawryddion Celfyddydol Cymru: Ar Lwybr Adferiad? – Ionawr 2022

## Casglu tystiolaeth

**9.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 19 Gorffennaf 2022 a 30 Medi 2022. Cawsom 19 o ymatebion ysgrifenedig yn cynrychioli ystod o leisiau yn y diwydiannau creadigol. Gwnaethom hefyd gynnal chwe sesiwn tystiolaeth lafar rhwng 26 Hydref 2022 a 25 Mai 2023. Ceir amlinelliad o'r rhai a gymerodd ran yn Atodiad 1 a 2 o'r adroddiad hwn.

**10.** Yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig a llafar, gwnaethom amrywiaeth eang o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliad â Phencadlys newydd BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd ar 19 Hydref 2022. Hwylusodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Comisiwn y Senedd gyfweliadau ar ein rhan gyda gweithwyr yn y sector diwydiannau creadigol ("y Cyfweliadau").[15] Ac yn olaf, ar 10 Tachwedd 2022, gwnaethom gymryd rhan mewn gweithdy gydag academyddion a gweithwyr yn y sector, a gynhaliwyd yn garedig gan Brifysgol De Cymru ("y Gweithdy").[16] Roedd y proffesiynau a gynrychiolir yn y ddau ymarfer yn cynnwys animeiddwyr, fideograffwyr, cynhyrchwyr gemau fideo, dylunwyr gwisgoedd, gweithwyr proffesiynol goleuadau a sain, cerddorion a sgriptwyr.

**11.** Hoffem ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i gyfrannu i'r ymchwiliad hwn.

[15] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru – Ionawr 2023 [PDF 282KB]
[16] Gweithlu'r diwydiannau creadigol: Gweithdy – Ionawr 2023 [PDF 172KB]

# 2. Cyflwr y gweithlu

## Pandemig Covid-19

**12.** Mae'r dystiolaeth a drafodwyd yn dangos y cafodd pandemig COVID-19 effaith anghymesur ar weithwyr llawrydd, sef hanner gweithlu'r sector diwylliannol yng Nghymru. Canfu adroddiad gan Llawryddion Celfyddydol Cymru yn 2022 y canlynol:

- Nododd 92 y cant o weithwyr llawrydd fod Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar eu gwaith, gyda hanner yn colli 80 y cant o'u gwaith yn 2021.
- Ar gyfartaledd, collodd gweithwyr llawrydd 76 y cant o'u hincwm yn 2020. Dim ond gwelliant bychan i'r incwm a gollwyd yn 2021, gyda 59 y cant o'r incwm wedi'i golli.
- Collwyd 45 y cant o incwm oherwydd canslo a 37 y cant oherwydd gostyngiad neu gwtogi ar gynigion gwaith a chyfleoedd oedd ar gael.
- Rhoddodd 57 y cant o weithwyr llawrydd y gorau i fuddsoddi mewn offer newydd, deunydd, cynhyrchion, addysg, hyfforddiant, ac ati.
- Er y bu gwelliant yng nghanfyddiad y rhagolygon i'r dyfodol rhwng 2020 a 2021, mae bron chwarter y gweithwyr llawrydd yn dal i fod yn ansicr a fyddant yn aros yn y diwydiant neu'n gadael.[17]

**13.** Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yn amlwg bod yr adferiad o'r pandemig wedi amrywio rhwng sectorau'r diwydiannau creadigol. Dywedodd yr Athro Justin Lewis (Prifysgol Caerdydd) y canlynol wrthym:

> *"It's a mixed picture across the creative industries ... I think, in film and TV, we've seen expansion, and great expansion in Wales. Wales is a huge success story in that sector, and really going from strength to strength and is becoming now, I think, seen as a kind of global*

[17] Llawryddion Celfyddydol Cymru: Ar Lwybr Adferiad? – Ionawr 2022

> *powerhouse in the UK… The music industry is very different— all the underlying trends in the music industry are bad. The shift towards streaming services has taken a huge amount of money out of the music industry. COVID was obviously a massive blow as well. So, I think the music industry is struggling and will continue to struggle until we find other economic models to support the music industry."*[18]

**14.** Cytunodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru) gan nodi bod y pandemig wedi cael effaith fawr ar y sector cerddoriaeth, ac y byddai'n cymryd mwy o amser i adfer.[19]

**15.** Dywedodd Undeb y Cerddorion wrthym am arolwg a wnaed gan Help Musicians UK a ddangosodd y canlynol:

- Roedd bron hanner y cerddorion naill ai'n bryderus iawn neu'n hynod bryderus y byddant cael eu gorfodi i adael y diwydiant.
- Mae 60 y cant o gerddorion yn waeth eu byd nawr mewn cymhariaeth â'r llynedd.
- Roedd 78 y cant o gerddorion yn ennill llai nag roeddent cyn y pandemig ac mae 98 y cant yn poeni am eu gallu i ennill digon o incwm.[20]

**16.** Dywedodd yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr fod y pandemig yn tynnu sylw at natur ansicr gwaith llawrydd. Dywedodd, ar ddechrau'r pandemig, fod y sector wedi cau a arweiniodd at derfynu contractau. Arweiniodd hyn at atal incwm i filoedd o weithwyr. Ychwanegodd yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr fod llawer o bobl, yn ddealladwy, yn dal dig am hynny.[21]

---

[18] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 23-24
[19] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 22
[20] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 15
[21] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 23

## Hwb i'r diwydiannau sgrin

**17.** Roedd rhai rhannau o'r diwydiannau creadigol yn ffynnu yn ystod pandemig Covid-19. Dywedodd Wales Interactive (cyhoeddwr a datblygwr gemau cyfrifiadurol) wrthym fod y pandemig wedi bod o fudd i'r sector gemau cyfrifiadur. Y rheswm dros hyn yw bod pobl gartref yn chwarae gemau. Clywsom y tyfodd y diwydiant yn ystod y pandemig; tuedd sydd wedi parhau.[22]

**18.** Adferodd y sector sgrin yn gyflym hefyd yn dilyn oedi cychwynnol a achoswyd gan y cyfnod clo. Dywedodd Ffilm Cymru fod hyn yn cael ei sbarduno gan y galw enfawr am gynnwys. Fodd bynnag, cyflwynodd hyn heriau:

> *"…people are working very long hours, they're working production to production without the breaks that they might have had in the past—it's those sorts of challenges to face."*[23]

**19.** Cafodd yr heriau hyn eu hadleisio gan y cwmni cynhyrchu Bad Wolf a ddywedodd, er i'r gwaith ddod i ben am wyth mis, mai yn ystod y pandemig oedd y cyfnod prysuraf iddo erioed. Fodd bynnag, gwnaeth hyn greu problemau gyda phrinder gweithlu a gallu ateb y galw. Dywedodd wrthym fod hyn wedi arwain at staff yn ymgymryd â rolau newydd, a oedd yn heriol i sicrhau nad oeddent yn cael eu gorlethu.[24]

**20.** Yn ystod ein cyfweliadau, dywedwyd y canlynol wrthym:

> *"Dwi wedi bod yn ddirprwy reolwr llwyfan, sef rhywbeth na fyddech chi, fel rhywun newydd raddio, yn disgwyl ei wneud tan ychydig o*

[22] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 133
[23] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 139
[24] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 143

> *flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant. Mae yna bobl mewn swyddi nad oes ganddynt y sgiliau i'w gwneud."*[25]

ac:

> *"…mae'n wych i raddedigion ifanc ac ati, ond y broblem yw nad oes ganddyn nhw brofiad, maen nhw'n gwneud camgymeriadau y gwnaethon ni ddysgu peidio â'u gwneud amser hir yn ôl sydd heb gael eu pasio i lawr.* Felly, mae'n teimlo fel ein bod ni wedi mynd nôl deg mlynedd ac wedi colli cenhedlaeth o sgiliau."[26]

**21.** Esboniodd ITV Cymru Wales fod yr hwb i gynhyrchu wedi cynyddu'r galw am weithlu medrus. Roedd hyn, yn ei dro, wedi arwain at fwy o gystadleuaeth a chynnydd mewn costau a chyflogau.[27]

**22.** Roedd tystiolaeth gan gyfranogwyr yn y Gweithdy yn cyd-weld yn fras â'r dystiolaeth a drafodwyd bod y sector sgrin yn gwneud yn dda.[28]

**23.** Yn ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru fod lefelau twf digynsail mewn cynyrchiadau sgrin ar draws Cymru wedi arwain at brinder staff. Dywedodd wrthym hefyd fod gemau cyfrifiadur yn wynebu heriau wrth sicrhau cyllid i helpu'r sector i dyfu. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cyflwyno rhaglen hybu gemau cyfrifiadur i wella masnachadwyedd cwmnïau sefydledig drwy gynllun peilot.[29]

## Presenoldeb isel a materion cyllid

**24.** Yn wahanol i'r sector sgrin, mae'r celfyddydau byw yn ei chael hi'n anodd oherwydd nad yw presenoldeb cynulleidfaoedd wedi adfer i'r lefelau cyn y

[25] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]
[26] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]
[27] Ymateb i'r ymgynghoriad: CIWF17 ITV Cymru Wales
[28] Gweithlu'r diwydiannau creadigol: Gweithdy – Ionawr 2023 [PDF 172KB]
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

pandemig. Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru ("Cyngor y Celfyddydau") y canlynol:

> *"Yn sicr, mae'r pandemig wedi cael effaith go ddifrifol ar y sector, nid yn unig ar ganolfannau, ond ar y gweithlu. Rŷn ni yn cyflogi— mae'n sector ni'n ei ariannu yn cyflogi llai nawr nag yr oedd e cyn y pandemig. Mae costau wedi cynyddu yn ddifrifol, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad, tra bod incwm wedi gostwng. Mae yna lai o bobl yn mynychu, ac felly mae'r sector mewn sefyllfa go ddifrifol. Rŷn ni hefyd wedi colli rhyddgyfranwyr i'r sector. Mae yna bobl wedi dewis gadael. Mae yna broblemau gennym ni o ran llenwi swyddi, felly mae yna broblemau yn ein hwynebu ni o ran gweithlu yn ogystal. Felly, mae'n sefyllfa reit ddifrifol."*[30]

**25.** Her arall y mae'r sectorau celfyddydau a diwylliannol yn ei hwynebu yw costau ynni cynyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth yn nodi nad yw costau ynni cynyddol yn ymarferol i'r sector; mae prisiau ynni wedi codi 300 y cant ar draws ei haelodaeth ac, yn ei barn hi, byddant yn arwain at gau lleoliadau.[31] Dywedodd Cyngor y Celfyddydau fod 56 y cant o'r holl sefydliadau roedd wedi'u cynnwys mewn arolwg naill ai'n bryderus iawn neu'n hynod bryderus am effaith y cynnydd mewn costau ynni.[32]

**26.** Amlinellodd Cyngor y Celfyddydau drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth Cymru ynghylch sefydlu cronfa frys i gefnogi'r sector. Roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd y bydd Cyngor y Celfyddydau yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid cyfatebol i greu cronfa newydd i helpu'r sector[33].

**27.** Cawsom dystiolaeth bod sefydliadau'n cael hi'n trafferth recriwtio a chadw staff. Esboniodd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru y canlynol:

---

[30] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 121
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth
[32] Ymateb i'r ymgynghoriad: CIWF08 Cyngor Celfyddydau Cymru
[33] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 142

> *"We're having to pay over and above market rates to attract people into those key posts, all at a time when income levels are dropping and audiences aren't returning in the numbers that they were yet pre pandemic."*[34]

**28.** Roedd Undeb y Cerddorion yn bryderus iawn am gyflwr gweithlu'r sector cerddoriaeth, gan ddweud ei fod yn agored iawn i niwed. Roedd fod 49 y cant o gerddorion yn bryderus iawn neu'n hynod bryderus y byddant cael eu gorfodi i adael y diwydiant. Dywedodd Undeb y Cerddorion wrthym fod llawer o resymau dros hyn, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, Brexit, a lefelau cyllid cyhoeddus sefydlog.[35]

**29.** Dywedodd cyfranogwyr yn y Gweithdy nad oedd tua hanner y cynulleidfaoedd wedi dychwelyd i'r sinemâu. Yn ogystal, mae llawer o staff wedi gadael ac mae rhai cwmnïau theatr wedi cau.[36] Un sylw a wnaed yn ystod y Cyfweliadau oedd y tynnwyd sylw hefyd at ansicrwydd y sector digwyddiadau byw.[37]

**30.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y sector cerddoriaeth ymhlith y rhai y cafodd y pandemig yr effaith fwyaf arnynt. Clywsom hefyd am yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw a "diffyg hyfforddiant wedi'i gydlynu, llwybrau gyrfa clir, a sgiliau rheoli annigonol". Dywedodd Llywodraeth Cymru fod Cymru Greadigol yn gweithio "i wella a chynyddu rhagolwg masnachol a chynaliadwyedd busnesau, a chyfrannu at ddatblygiad a thwf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru".[38]

**31.** Pan wnaethom ofyn am y cymorth a roddwyd i'r gweithlu yn y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth, dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ("y Dirprwy Weinidog") y canlynol:

---

[34] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 129
[35] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraffau 15 a 17
[36] Tystiolaeth o weithdy Prifysgol De Cymru
[37] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

> *"…we allocated an additional £1 million funding to support the cost-of-living pressures in the arts sector, via the Arts Council of Wales, with £500,000 for 2023, and a further £500,000 in 2023-24. And what the Arts Council of Wales are telling us as well is that their National Lottery funding has performed much better than expected, and that means that they're also now able to direct that additional funding to the cost-of-living pressures being faced by the sector."*[39]

**32.** Yn ysgrifenedig yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1,000,000 i wynebu pwysau costau byw (£500,000 yn y flwyddyn ariannol hon a'r un nesaf). Dywedwyd wrthym fod hyn yn cynnwys nifer o sefydliadau lle mai cerddoriaeth yw eu ffocws allweddol. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2023, lansiodd Cyngor y Celfyddydau "daliad costau byw atodol ar gyfer grantiau presennol".[40]

## Y Gymraeg

**33.** Clywsom hefyd am heriau penodol y mae'r gweithlu Cymraeg yn eu hwynebu ar draws y diwydiannau creadigol. Nododd tystiolaeth o'n Gweithdy ei bod yn anodd recriwtio staff profiadol sydd â sgiliau Cymraeg ar gyfer rolau lefel ganol[41]. Dywedodd S4C fod y cynnydd yn nifer y cynyrchiadau yng Nghymru wedi creu heriau recriwtio. Ymhelaethodd S4C ar y prinderau hyn yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

> *"Yn ogystal â'r prinder a nodwyd ar hyn o bryd y tu ôl ac o flaen y camera, rydym yn gynyddol yn gweld tueddiadau ar gyfer sgiliau newydd: creu cynnwys digidol neu aml-lwyfan, gwyddonwyr data, datblygwyr a mwy."*[42]

[39] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 43
[40] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]
[41] Gweithlu'r diwydiannau creadigol: Gweithdy – Ionawr 2023 [PDF 172KB]
[42] Ymateb i'r ymgynghoriad: CIWF19 S4C

**34.** Roedd tystiolaeth o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gennym yn cyd-weld bod y prinder sgiliau yn y gweithlu Gymraeg yn "sgeri" a bod llawer o broblemau denu staff sy'n siarad Cymraeg. Roedd cwestiwn hefyd pam y mae cymwysterau Cymraeg ysgol presennol (TGAU a Safon Uwch) yn dal i ganolbwyntio ar lenyddiaeth, ond nid ar sgiliau eraill ar gyfer y sector megis ysgrifennu copi.[43]

**35.** Mae nifer o fentrau i wella sgiliau a chapasiti'r Gymraeg yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys ysgoloriaethau drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i alluogi myfyrwyr i ymgymryd â rhan o'u cwrs neu'r cyfan ohono yn y Gymraeg[44], ac mae buddsoddiad drwy raglen Arfor i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy ymyriadau economaidd[45]. Rydym hefyd yn nodi bod y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol[46] yn amlinellu'r canlynol:

- Helpu i gyflawni uchelgeisiau Cymraeg 2050 i hyrwyddo'r iaith a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru drwy sicrhau bod darpariaeth hyfforddi yn cael ei hyrwyddo a'i chyflwyno yn Gymraeg lle y bo'n bosibl a bod y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu'r iaith neu wella eu sgiliau Cymraeg yn cael y cyfle i wneud hynny.

- Gweithio gyda chydweithwyr yn adran Addysg Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gyrfaoedd creadigol yn y sectorau â blaenoriaeth yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol o fewn thema drawsbynciol Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith y Cwricwlwm i Gymru.

**36.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod helpu'r sector sgrin i dyfu drwy gefnogi cynhyrchion brodorol a buddsoddiad wedi'i dargedu yn un o'r blaenoriaethau i'r sector sgrin.[47] Mae hyn yn cynnwys cyllid penodol ar gyfer cynyrchiadau Cymraeg fel rhan o femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda BBC Cymru Wales ac S4C. Dywedwyd wrthym fod y

[43] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]
[44] Coleg Cymraeg Cenedlaethol: Ysgoloriaethau
[45] ARFOR: Ail wedd ARFOR
[46] Cymru Greadigol: Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol 2022-2025 – Mai 2022 [PDF 312KB]
[47] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 22

memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn ar ei ben ei hun wedi darparu £1,000,000 o gyllid i'r sector sgrin.[48]

## Ein barn ni

**37.** Mae deuoliaeth yng nghyflwr y diwydiannau creadigol. Mae un rhan o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, sef y sector sgrin (gan gynnwys gemau cyfrifiadur) yn ffynnu. Mae wedi adfer yn gyflym o'r pandemig ac mae'n un o'r injans sy'n gyrru economi Cymru. Er ein bod yn derbyn bod rhai heriau yn y rhan hon o'r sector, megis sicrhau bod llif o dalent ar gael i lenwi'r swyddi sydd eu hangen (rydym yn trafod hyn ymhellach ym mhennod pedwar), mae'r camau sy'n cael eu cymryd gan y sector a Llywodraeth Cymru yn hyn o beth yn rhoi sicrwydd i ni.

**38.** Mae'r sectorau celfyddydau a cherddoriaeth yn ei chael hi'n anodd. Rydym yn parhau i bryderu am gyflwr parhaus y rhan hon o'r diwydiannau creadigol. Mae'r argyfwng costau byw parhaus yn cyfyngu ar allu'r sector celfyddydau a cherddoriaeth i adfer yn llawn o bandemig Covid-19. Mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan ddiffyg hyfforddiant a datblygu llwybrau gyrfa clir (rydym yn trafod hyn ymhellach ym mhennod pump).

**39.** Rydym yn croesawu'r camau presennol a y mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau yn eu cymryd i helpu'r adferiad yn y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth. Fodd bynnag, credwn fod lle i wneud mwy, sef drwy Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru sydd ar ddod.

**40.** Wrth i'r Strategaeth Ddiwylliant barhau i ddatblygu, credwn y dylai'r strategaeth nodi sut y bydd yn datblygu ac yn cynnal y gweithlu yn y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth. Credwn y byddai hyn o fudd ar gyfer cadw staff yn y sectorau hyn, y mae llawer ohonynt yn weithwyr llawrydd.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod yn nodi cymorth ar gyfer datblygu a chynnal y gweithlu yn y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth.

[48] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 124

**41.** Er ein bod yn cydnabod bod recriwtio a chadw staff yn broblem gyffredinol ar gyfer y diwydiant cyfan, rydym yn pryderu am y materion y mae'r rhan Gymraeg o'r diwydiannau creadigol yn eu hwynebu.

**42.** Rydym yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cymru yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer cynyrchiadau Cymraeg. Rydym hefyd yn cytuno â'r llywodraeth bod y diwydiannau creadigol yn hanfodol wrth weithio tuag at darged 2050, sef miliwn o siaradwyr. Mae sicrhau bod digon o gynnwys yn cael ei ddarparu i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl yn hollbwysig i'r Gymraeg ffynnu ym mhob cymuned ar draws Cymru. Yn yr un modd, mae'n rhaid cael digon o staff â sgiliau Cymraeg i weithio ar gynyrchiadau o'r fath. O ystyried ein pryderon am hyn, credwn fod angen mwy o eglurder ar yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon.

**43.** Er gwaethaf strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn y tymor hir - Cymraeg 2050[49] - nid yw'n glir sut y mae'r ymyriadau amrywiol yn cael eu cydlynu i fynd i'r afael â'r bylchau presennol a nodwyd yn y gweithlu diwydiannau creadigol Cymraeg.

**44.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n cydlynu'r mentrau gwahanol i sicrhau bod digon o sgiliau Cymraeg ar gael yn y diwydiannau creadigol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- Sut y mae'n ymgysylltu â phartneriaid a chyrff diwydiant fel Gyrfa Cymru i annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r diwydiannau creadigol;
- Sut y mae'n mapio data ar hyn o bryd ar gyfer anghenion sgiliau Cymraeg ar draws y diwydiannau;
- Sut y mae'n adolygu bylchau sgiliau Cymraeg yn flynyddol ar draws y diwydiannau.

**45.** Os nad oes cynlluniau penodol ar waith ar hyn o bryd, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid y mae arnynt angen sgiliau Cymraeg i ddatblygu a gweithredu cynllun i gynyddu'r gweithlu Cymraeg yn y diwydiannau creadigol.

[49] Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg – 10 Gorffennaf 2017

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n cydlynu mentrau i sicrhau bod digon o sgiliau Cymraeg ar gael yn y diwydiannau creadigol. Os nad oes cynlluniau penodol ar waith ar hyn o bryd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid y mae arnynt angen sgiliau Cymraeg i ddatblygu a gweithredu cynllun i gynyddu'r gweithlu Cymraeg yn y diwydiannau creadigol.

# 3. Cyflog ac amodau gwaith

## Cyflog

**46.** Clywsom gan yr Athro Justin Lewis (Prifysgol Caerdydd) fod lefelau cyflog nodweddiadol yn amrywio'n sylweddol ar draws y diwydiannau creadigol gyda rhai is-sectorau'n talu llawer mwy nag eraill.[50] Ychwanegodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru) fod gweithwyr llawrydd yn ennill cyflogau cymharol dda pan fyddant yn gweithio (yn enwedig yn y sector sgrin).[51]

**47.** Soniodd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru am yr anawsterau y mae cyrff celfyddydol a ariennir yn gyhoeddus yn eu hwynebu i dalu eu staff yn addas:

> *"Trying to keep up with pay increases that are affordable in the short term is requiring a lot of organisations to dip into risk reserves or money that they should have to be about long-term development or matching funds that they get from other funders— the arts council, local authorities and so on. So, it's hard to think of a short-term solution that doesn't require some kind of emergency measures and additional cash, and I'm not sure where that would come from."*[52]

**48.** Dywedodd y rhai y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr ymchwiliad hwn fod gwaith byw yn talu rhy ychydig a'i fod yn ansefydlog o'i gymharu â'r sector sgrin.[53]

[50] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 95
[51] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 97
[52] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 162
[53] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]

**49.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Cymru Greadigol yn atodi amodau i gyllid grant i wella cyflog ac amodau. Dim ond i gynyrchiadau a ariennir gan Cymru Greadigol y mae hyn yn gymwys[54].

## Amodau gwaith

**50.** Dywedodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru) fod amodau gwaith heriol, dwysedd gwaith, a sifftiau hir sy'n cael eu gyrru gan yr hwb i gynhyrchu yn y diwydiant sgrin yn cael effaith:

> *"People work very, very long hours, especially when they're working on set, on location. There's a rigidity to the working structures there that pressurises people. For instance, a good example would be if you've got small children and you're working in a studio where you're working 16-hour days. The studio might have a nursery on site, but if you don't actually get to see your children at all, it's immaterial where the nursery is."*[55]

**51.** Mae'r Athro Justin Lewis (Prifysgol Caerdydd) yn credu bod rôl i'r llywodraeth, mewn partneriaeth â darlledwyr, arwain ymdrechion i wella amodau gwaith yn y diwydiant sgrin.[56]

**52.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod yr heriau y mae'r diwydiannau creadigol yn eu hwynebu'n cynnwys:

> *"…cyfraddau is o ran tâl a buddiannau, diffyg sicrwydd gwaith, oriau hir, diffyg cynrychiolaeth ar gyfer gweithwyr, gallu rheoli annigonol a diffyg cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu."*[57]

[54] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 54
[55] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 49
[56] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 47
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

**53.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y bydd y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod yn amlinellu disgwyliadau'n glir iawn am sefydliadau diwylliannol yng Nghymru, sut y maent yn cyflogi staff a beth yw eu hamodau gwaith.[58]

## Bwlio ac ymddygiad problematig

**54.** Yn anffodus, yn debyg iawn i sefydliadau a sectorau eraill yng Nghymru a'r DU, nid yw'r diwydiannau creadigol yn ddiogel rhag ymddygiad amhriodol. Dywedwyd wrthym am fwlio ac ymddygiad problematig, gydag enghreifftiau wedi'u hamlinellu i ni'n canolbwyntio ar y sector sgrin.

**55.** Yn ystod ein Cyfweliadau, dywedodd un cyfweledig y canlynol wrthym:

> *"Dwi wedi colli cyfri ar sawl gwaith dwi wedi gweld pobl yn cael eu cam-drin yn eiriol ar set. Mae egos cyfarwyddwyr yn beth go iawn ac, mae'n rhaid i fi fod yn onest, dyw e ddim yn creu amgylchedd gwaith dymunol – yn ôl pobl eraill rwy'n nabod, mi fydden i'n dweud ei fod yn beth cyffredin yn y diwydiant."*[59]

**56.** Soniodd cyfranogwyr eraill am bryderon lles a rhoddwyd enghreifftiau o bobl yn cael eu trin yn wael ar setiau ffilm a theledu.[60] Gwnaeth cyfranogwyr yn ein Gweithdy nifer o sylwadau ynghylch "ymddygiad gwenwynig" yng gweithlu'r diwydiannau creadigol. Roedd hyn yn cynnwys diffyg dealltwriaeth o sut i adrodd ymddygiad gwael, diffyg strwythur Adnoddau Dynol, "cyfarwyddwyr artistig sydd â gormod o bŵer", a "byd bach a chysylltiedig y diwydiant" yn gwneud adrodd yn anodd i weithwyr llawrydd.[61]

**57.** Dywedodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru), er bod tystiolaeth anecdotaidd o ymddygiad o'r fath, fod arferion gwaith afresymol yn fater mwy dybryd.[62]

---

[58] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 55
[59] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]
[60] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]
[61] Gweithlu'r diwydiannau creadigol: Gweithdy – Ionawr 2023 [PDF 172KB]
[62] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 49

**58.** Clywsom hefyd fod adrodd ymddygiad o'r fath yn heriol i ddioddefwyr. Dywedodd yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr y canlynol wrthym:

> *"There is indeed a culture of fear that prevents victims of bullying and harassment coming forward, for fear of being branded a troublemaker."*[63]

**59.** Mae'n annhebygol y bydd darpariaethau adnoddau dynol gwael cynyrchiadau, yn ôl yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr, yn fawr o help yn hyn o beth. Dywedodd yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr eu bod yn gobeithio na fydd na fydd rhagor o sgwrs am hynny oherwydd bod gweithrediadau o'r fath yn para naw neu ddeng mis yn unig.[64]

**60.** Dywedodd darlledwyr wrthym fod ganddynt brosesau a chanllawiau ar waith i fynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath yn y gweithle.[65] Mae gan BBC Cymru Wales brosesau a chanllawiau penodol ar waith gyda'i gyflenwyr o ran sut y maent yn trin eu gweithlu.[66]

## Iechyd meddwl

**61.** Amlinellodd CULT Cymru (prosiect dysgu dan arweiniad undebau llafur yn y diwydiannau creadigol) bwyntiau allweddol o ymchwil (ledled y DU) a gafodd ei chynnal gan yr Elusen Ffilm a Theledu (elusen sy'n cefnogi staff y sector sgrin) a'i chyhoeddi ym mis Chwefror 2020 a nododd y canlynol[67]:

- Roedd naw o bob deg o bobl yn y sector wedi cael problem iechyd meddwl;

[63] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 73
[64] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 86
[65] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraffau 74-77
[66] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 64
[67] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 65

- Roedd 55 y cant o weithwyr sgrin wedi cael meddyliau hunanladdol, o'i gymharu ag 20 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol;
- Dywedodd 39 y cant o bobl eu bod wedi wynebu aflonyddu a gwahaniaethu hiliol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Roedd 74 y cant o bobl anabl a oedd wedi dod i'r diwydiant wedi ystyried gadael;
- Dim ond dau y cant o bobl a ddywedodd y byddent yn mynd at eu rheolwr llinell i siarad am y broblem.[68]

**62.** Yn ystod y Gweithdy, pwysleisiodd academyddion a gweithwyr yn y diwydiant fod problemau iechyd meddwl yn gyffredin ymhlith staff iau.[69]

**63.** Dywedodd CULT Cymru wrthym hefyd am y cynllun peilot hwylusydd llesiant a ariannwyd gan Cymru Greadigol lle y mae'r hwylusydd llesiant yn gweithio gyda chwmni cynhyrchu i gefnogi a chynghori ar y ffordd orau o gyflawni ei ddyletswydd gofal cyfreithiol.[70] Mae'r cwmni cynhyrchu, Bad Wolf, wedi cael cyllid ar gyfer hwylusydd llesiant ar y set oherwydd ei fod yn cydnabod yr angen am gymorth iechyd meddwl i sicrhau bod ei holl dimau'n teimlo'n gyfforddus, yn hapus ac wedi ymgartrefu yn eu hamgylcheddau gwaith.[71]

**64.** Dywedodd yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr y gallai Llywodraeth Cymru weithio'n agosach gyda'r undebau ar brosiectau tebyg i'r fenter hwylusydd llesiant.[72]

---

[68] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 67
[69] Gweithlu'r diwydiannau creadigol: Gweithdy – Ionawr 2023 [PDF 172KB]
[70] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 65
[71] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 180
[72] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 73

**65.** Amlinellodd darlledwyr nifer o ymyriadau y maent wedi'u gwneud ar iechyd meddwl yn y gweithle, gan gynnwys cyflwyno hwyluswyr llesiant a swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl.[73]

**66.** Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail gam y rhaglen hwyluswyr llesiant. Nododd y canlynol ar y pryd:

> *"Bydd Cam 2 y peilot yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd dros y chwe mis diwethaf ac yn galluogi carfan newydd o gwmnïau cynhyrchu i elwa ar y cymorth a'r cyngor sydd ar gael gyda'r nod o gynyddu llesiant ar y set a chadw mwy o staff."*[74]

**67.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym yn ystod ein sesiwn dystiolaeth lafar fod y rhaglen hwylusydd llesiant yn gweithio'n dda a'i bod yn mynd i geisio ei dyblygu yn y sectorau cerddoriaeth a digidol gyda threigl amser.[75]

## Ein barn ni

**68.** Mae llwyddiant y diwydiant sgrin yng Nghymru yn cael ei yrru gan ddychymyg, arbenigedd a gwaith caled y bobl dalentog sy'n gweithio ynddo. Fodd bynnag, rydym wedi cael tystiolaeth gymhellol bod sifftiau hir, dwysedd gwaith, diwylliant ac arferion gwaith gwael yn creu amgylcheddau sy'n niweidiol i iechyd meddwl a llesiant y gweithlu. Mewn diwydiant hanfodol, wedi'i yrru gan dalent, mae'r canfyddiad bod nifer fawr o'r gweithlu'n ystyried gadael yn bryder difrifol a dybryd. Credwn fod gan Lywodraeth Cymru fwy o rôl wrth newid dull y diwydiant o ymdrin â llesiant yn y gweithle. Dylai Llywodraeth Cymru fod â rôl gydlynol wrth ymdrin â hyn. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd drwy gefnogi a hyrwyddo arfer gorau, a thrwy osod y disgwyliadau ar gyfer y diwydiant drwy'r Strategaeth Ddiwylliant.

---

[73] Cofnod y Trafodion: Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Ionawr 2023, paragraffau 86-90

[74] Llywodraeth Cymru: Cyllid pellach ar gyfer hwylusydd lles yn sector sgrin Cymru – 17 Mai 2023

[75] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 62

**69.** Yn ystod ein sesiynau casglu tystiolaeth rydym wedi clywed am fwlio ac ymddygiad amhriodol yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn destun gofid ac yn anffodus. Fel rydym wedi dweud mewn gwaith tebyg arall, mae'n annerbyniol i weithwyr fod yn ddarostyngedig i ymddygiad o'r fath yn y gwaith, lle a ddylai fod yn ddiogel iddynt. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan ac yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn gallu gwneud hynny heb ofni rhagfarn, bwlio neu wahaniaethu.

**70.** Mae'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (drwy Cymru Greadigol) i wella iechyd meddwl a llesiant i'w groesawu. Rydym hefyd yn falch bod ail gam y cynllun peilot hwylusydd llesiant yn cael ei gyflwyno ac rydym yn gobeithio y bydd yn cael ei estyn i sectorau eraill yn y diwydiannau creadigol.

**71.** Fodd bynnag, mae angen mwy o gamau i roi terfyn ar fwlio yn y gweithle. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag undebau llafur a chwmnïau cynhyrchu, adolygu pa fesurau eraill y gellir eu cyflwyno i sicrhau bod gweithwyr yn gallu gweithio'n ddiogel mewn amgylchedd gwaith goddefgar a theg.

**72.** Yn ogystal, o ystyried maint y diwydiant a'r galw am weithwyr medrus, mae'n hanfodol cadw staff. Rydym o'r farn y gallai darn o waith o'r fath wneud cryn dipyn i helpu o ran cadw staff. Dylid gwneud y gwaith hwn dros y chwe mis nesaf a dylai Llywodraeth Cymru adrodd ei chanfyddiadau i'r Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag undebau llafur a chwmnïau cynhyrchu, nodi arfer gorau i sicrhau y gall gweithwyr weithio mewn amgylchedd heb wahaniaethu, bwlio a rhagfarn. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis ar ei chynnydd gyda'r argymhelliad hwn.

**73.** Rydym hefyd wedi nodi tystiolaeth sy'n awgrymu bod gweithwyr yn y diwydiannau sgrin yn gallu ennill cyflogau da, sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod heriau'n parhau yn y sectorau celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth o ran cyflog a chadw staff. Wrth i'r pwysau ar arian cyhoeddus barhau, mae hyn yn annhebygol o wella yn y dyfodol agos yn anffodus. Bydd unrhyw gyllid ychwanegol a ddarparwyd i'r sectorau hyn yn

ddiweddar wedi'i erydu gan chwyddiant cynyddol. Mae hyn, ar y cyd â'r pwysau ariannol presennol ar y sectorau celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth yn fwy cyffredinol (megis cynulleidfaoedd llai a chostau ynni uwch), yn golygu ei bod yn heriol iawn darparu cyflogau cystadleuol.

**74.** Rydym yn derbyn bod pwysau ariannol yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru yn debygol o allu darparu cyllid ychwanegol sylweddol i alluogi'r sectorau celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth i gystadlu â'r sector sgrin o ran cyflogau. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Chyngor y Celfyddydau, adolygu pa adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar y sectorau hyn i sicrhau setliadau cyflog teg. Bydd hyn yn helpu i roi darlun clir o'r sefyllfa. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru adolygu pa adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar sectorau'r celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth i sicrhau setliadau cyflog teg ac amlinellu pa gymorth ychwanegol y gall ei ddarparu. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**75.** Yn olaf, rydym yn credu bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ymgorffori cyflog teg ac amodau gwaith mewn prosiectau a ariennir ganddi yn bwysig iawn. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y bydd y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod yn amlinellu disgwyliadau am sefydliadau diwylliannol yng Nghymru, sut y maent yn cyflogi eu staff a beth yw eu hamodau gwaith. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr ymyriadau cadarnhaol hyn i sicrhau bod y twf yn y diwydiannau creadigol yn gynaliadwy ac yn deg, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Fel y cyfryw, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgorffori'r darpariaethau presennol ar gyflog teg ac amodau gwaith a'r defnydd o hwyluswyr llesiant yn ei Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod. Drwy wneud hyn, rydym yn credu y bydd Llywodraeth Cymru yn anfon neges gref ynghylch sut y mae'n credu y gall y diwydiannau creadigol fod yn deg ac yn gynaliadwy i bawb sy'n gweithio ynddynt.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys darpariaethau ar gyflog teg ac amodau gwaith a'r defnydd o hwyluswyr llesiant yn y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod.

# 4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**76.** Dywedodd tystion wrthym fod angen gwneud mwy i liniaru effaith amodau gwaith yn y diwydiannau creadigol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**77.** Dywedodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru) wrthym fod trafnidiaeth yn broblem fawr yn y sector sgrin, oherwydd ffilmio ar leoliad i ffwrdd o drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch. Felly, mae peidio â chael defnydd o gar neu allu gyrru yn atalydd enfawr.[76] Galwodd hefyd am ddadansoddiad gwell o arferion cyflogi a recriwtio oherwydd y canlynol:

> *"…the short-termism of the industry works against employing people from broader, diverse backgrounds. When I say 'diverse backgrounds', really I mean lower socioeconomic backgrounds. Obviously, that's reflected in the ethnic diversity of people, but it's people from lower socioeconomic backgrounds who find that inhibiting."*[77]

**78.** Roedd yr Athro Justin Lewis (Prifysgol Caerdydd) yn gadarnhaol ynghylch y posibiliadau ar gyfer gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan nodi'r gwaith a oedd ar y gweill. Dywedodd wrthym fod Media Cymru wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau i wneud y sector yn fwy cynhwysol[78]. Fodd bynnag, ychwanegodd y canlynol:

> *"…the working practices thing does need to shift in terms of employment and how people are employed within the industry. It needs to move towards the kind of employment practices that we*

[76] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraffau 52-53
[77] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 54
[78] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 62

> *would expect in Welsh Government, or in universities, where you would expect certain standards to allow equal opportunities for all."*[79]

**79.** Yn hyn o beth, dywedodd Ffilm Cymru y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy o ran yr hyn a ofynnir gan gwmnïau cynhyrchu pan fydd yn cyhoeddi contractau.[80]

**80.** Nododd ITV Cymru Wales yn ei ymateb ysgrifenedig fod angen i ddarlledwyr a chwmnïau cyfryngau gydweithio mwy i nodi a chadw gweithwyr talentog amrywiol.[81] Dywedodd S4C wrthym mai ei:

> *"…[ph]rif flaenoriaethau… yw gwella cynhwysiant o ran anabledd ac ethnigrwydd lleiafrifol gan mai dyma'r ddwy nodwedd lle mae mwyaf o dangynrychiolaeth yn y sector sgrin yng Nghymru."*[82]

**81.** Soniwyd am nifer o bwyntiau yn ein gweithdy ym Mhrifysgol De Cymru mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys:

- Mae cynrychiolaeth docenistaidd yn digwydd yn hytrach na newid strwythurol.
- Mae pobl yn cael eu recriwtio er amlygrwydd, ond nid ydynt yn cael eu datblygu.
- Nid yw sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli yn y diwydiannau sgrin. Prin iawn yw'r bobl anabl mewn swyddi uwch. Dylai cynyrchiadau sgrin [sy'n cael cyllid Llywodraeth Cymru] orfod ymrwymo i safon cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru.

---

[79] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 64
[80] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 209
[81] Ymateb ysgrifenedig ITV
[82] Ymateb ysgrifenedig S4C

- Mae angen i addysg uwch edrych ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i baratoi pobl cyn iddynt ymuno â'r diwydiant.[83]

**82.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog, pan fo Llywodraeth Cymru yn cyllido sefydliadau'n uniongyrchol, ei bod yn gwneud cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhwymedigaeth dan gontract o'r cyllid hwnnw.[84] Dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol wrthym hefyd:

> *"We provided over £400,000 to the Arts Council of Wales to deliver a series of commissioning projects that would deliver black, Asian and minority ethnic heritage projects across the arts sector."*[85]

**83.** Tynnodd Llywodraeth Cymru ein sylw hefyd at enghreifftiau presennol o arfer da, megis un cwmni cynhyrchu sy'n darparu trafnidiaeth i oedolion ifanc i'w cludo i'r gwaith ac yn ôl. Nododd Llywodraeth Cymru fod angen hyrwyddo enghreifftiau o'r fath fel arfer da i eraill ei ddilyn.[86]

## Data cyfyngedig

**84.** Clywsom hefyd fod diffyg data da ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiannau creadigol.

**85.** Dywedodd yr Athro Justin Lewis (Prifysgol Caerdydd) wrthym fod dwy flynedd o oedi o'r adeg y caiff data eu casglu cyn y caiff setiau data eu cyflwyno.[87] Ychwanegodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru) fod Media Cymru wedi lansio arolwg o'r gweithlu sgrin, fydd yn rhoi dirnadaethau newydd i'r gweithlu.

---

[83] Gweithlu'r diwydiannau creadigol: Gweithdy – Ionawr 2023 [PDF 172KB]
[84] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 71
[85] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 71
[86] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 78
[87] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 66

Dywedodd fod yr arolwg yn cael ei yrru gan weithwyr eu hunain, yn hytrach na chyflogwyr.[88]

**86.** Barn gyffredin yr undebau am gasglu data yw nad yw data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant presennol yn ddigonol. Dywedodd CULT Cymru fod y data sydd ar gael yn wael iawn, er bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.[89] Dywedodd Equity fod y data presennol yn dameidiog ac yn canolbwyntio ar gyflogeion, yn hytrach na gweithwyr llawrydd. Dywedodd mai'r broblem gyda hyn yw efallai mai dim ond am ychydig ddyddiau y bydd rhywun yn gweithio ac na chaiff ei gynnwys mewn arolwg o'r fath.[90]

**87.** Dywedodd Undeb y Cerddorion fod data wedi'u casglu ar lefel y DU yn y gorffennol a'i fod yn teimlo y dylid casglu mwy ar lefel Cymru.[91] Yn yr un modd, nododd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ei bod yn anodd asesu amrywiaeth yn y celfyddydau gan nad oedd yn ymwybodol o ddata llinell sylfaen ar gyfer Cymru.[92]

**88.** Dywedodd Cyngor y Celfyddydau y canlynol wrthym:

> *"…we do collect data on a six-monthly basis from the organisations that we support. There is more work that needs to be done on it, though. I think that we need to improve the quality of the data and get it to be more nuanced,"*[93]

**89.** Cyfaddefodd S4C fod ganddi lawer o waith i'w wneud o safbwynt casglu data wrth fesur cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sefydliad.

---

88 Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 67
89 Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 81
90 Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 84
91 Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 82
92 Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 186
93 Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 191

Dywedodd wrthym mai dyma un o'i blaenoriaethau mwyaf ac y bydd gwelliant yn y maes hwn o fewn blwyddyn.[94]

**90.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, drwy arolygon blynyddol y diwydiant, fod ganddi, bellach, wybodaeth well am ystadegau cynwysoldeb ac amrywiaeth yn y sector. Nododd y bydd y canfyddiadau, gyda threigl amser, yn rhoi amlinelliad cliriach o ran lle i dargedu buddsoddiad.[95]

**91.** Yn ysgrifenedig yn dilyn ein sesiwn, rhoddodd y Dirprwy Weinidog drosolwg i ni o'r ystadegau amrywiaeth a gasglwyd gan Cymru Greadigol. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gael ar-lein, ac yn cwmpasu'r blynyddoedd 2016-21[96]. Nid yw'r ffigurau hyn, ar y cyfan, yn cynnwys gweithwyr llawrydd, sy'n rhoi cyfrif am tua hanner gweithlu'r diwydiannau creadigol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog hefyd, er bod Cymru Greadigol yn casglu data ar ethnigrwydd, fod hyn yn gyfyngedig i berchnogion, cyfarwyddwyr neu bartneriaid busnesau.[97] Nododd ei bod yn "amlwg o'r ffigurau hyn nad oedd cynrychiolaeth ethnig yn adlewyrchu cyfartaleddau'r boblogaeth o hyd".[98]

## Ein barn ni

**92.** Mae'r twf yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, yn enwedig yn y sector sgrin, yn rhywbeth y dylem fod yn falch iawn ohono. Yr her, yn ein barn ni, yw sicrhau bod y twf hwn yn gynaliadwy ac yn deg drwy ddarparu cyfleoedd gwirioneddol i bawb. Rydym yn croesawu'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru drwy sicrhau bod y prosiectau a ariennir ganddi'n cynnwys cymalau dan gontract ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud mwy i brif ffrydio arferion gwaith i wella amrywiaeth a chynhwysiant, a sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol wrth hyrwyddo arfer da a dylanwadu ar newid ar draws y sector.

---

[94] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 37

[95] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 70

[96] Llywodraeth Cymru: Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 25 Ebrill i 6 Mai 2022 – 2 Hydref 2023

[97] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]

[98] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru brif ffrydio cymalau dan gontract ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cytundebau cyllido cynhyrchu i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylid nodi'r defnydd o'r rhain hefyd yn y Strategaeth Ddiwylliant sydd ar ddod, a'u defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl.

**93.** Roeddem yn siomedig oherwydd lefel y data sydd ar gael ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Er ein bod yn croesawu'r cynnydd a amlinellwyd, yn enwedig arolwg gweithlu'r diwydiant sgrin ac arolwg diwydiant Cymru Greadigol, mae llawer mwy i'w wneud. Credwn fod data da'n hanfodol i ddeall cyfansoddiad demograffig y gweithlu fel y gellir nodi materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymdrin â hwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen gwella'r trefniadau casglu data presennol a dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid fel Cyngor y Celfyddydau a'r partneriaid academaidd i gyflawni hyn. Credwn y bydd trefniadau casglu data gwell o ystod ehangach o sectorau yn y diwydiannau creadigol yn helpu i nodi ymhellach y materion y mae angen ymdrin â hwy.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r partneriaid academaidd i amlinellu sut y gall wella'r trefniadau casglu data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn tri mis ar sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn.

# 5. Sgiliau a hyfforddiant

**94.** Yn 2019, cynhaliodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd (y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu) ymchwiliad[99] i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor ar y pryd mai'r ffactor mwyaf a oedd yn cyfyngu ar dwf yn y diwydiannau sgrin yng Nghymru oedd prinder sgiliau posibl.[100]

**95.** Yn ei adroddiad, galwodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth sgrin a fyddai, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys "cymryd cyfrifoldeb dros nodi a lliniaru bylchau sgiliau".[101]

**96.** Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd "corff sgiliau creadigol newydd yn cael ei gyflwyno'n fewnol drwy Cymru Greadigol" (is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru).[102]

**97.** Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddwyd Arolwg Sgrin Cymru – adroddiad gan Brifysgol De Cymru ar y cyd â Cymru Greadigol ar y diwydiannau sgrin. Yn ôl yr adroddiad, "ar hyn o bryd mae nifer o fylchau sgiliau yn effeithio ar y diwydiant sgrin Cymru gyfan yn 2020-21".[103]

**98.** Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol[104], wedi'i ategu gan Gronfa Sgiliau Creadigol gwerth £1 filiwn[105]. Bydd 17 o brosiectau'n cael £1.5 miliwn ar gyfer 2022-2024.[106]

---

[99] Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Pumed Senedd: Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru
[100] Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Pumed Senedd: Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru
[101] Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Pumed Senedd: Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru
[102] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Corff Sgiliau Creadigol newydd i Gymru – 16 Medi 2021
[103] Prifysgol De Cymru: Arolwg Sgrin Cymru 2021 – Chwefror 2022
[104] Cymru Greadigol: Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol 2022-2025 – Mai 2022 [PDF 312KB]
[105] Llywodraeth Cymru: Cynllun newydd i helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o dalent greadigol yng Nghymru – 21 Medi 2022
[106] Llywodraeth Cymru: Cyllid newydd yn cael ei ddyfarnu i brosiectau i wella sgiliau yn Sector Creadigol Cymru – 9 Chwefror 2023

**99.** Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad a gomisiynwyd gan Hefin David AS, "Pontio i fyd gwaith".[107] Ymhlith yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw y mae:

- Dylid rhoi cyfleoedd profiad gwaith ystyrlon i ddysgwyr;
- Dylai dysgwyr feddu ar eglurder llawn ynghylch pa opsiynau sydd ar gael iddynt yn dilyn addysg ôl-orfodol yn ifanc;
- Mae'n rhaid cael trefniadau cydweithio gwell rhwng ysgolion, colegau a chyflogwyr er mwyn darparu buddion cilyddol i ddysgwyr a'r sector addysg ehangach.[108]

## Gwaith cynllunio tymor hwy ar gyfer sgiliau

**100.** Nododd nifer o dystion fod gwaith cynllunio sgiliau presennol ar gyfer y diwydiannau creadigol yn mabwysiadu dull tymor byr. Dywedodd Tom Ware (Prifysgol De Cymru) wrthym nad diffyg hyfforddiant oedd y broblem, ond ei fod yn ymateb i anghenion tymor byr[109]. Roedd BBC Cymru Wales yn cyd-weld â'r farn hon. Dywedodd y canlynol:

> *"…mae'n teimlo ar y funud ein bod ni'n ymateb i'r heriau presennol ac yn edrych ar beth ydy'r angen ar hyn o bryd, ac efallai bod angen edrych ymhellach weithiau o ran sgiliau'r dyfodol, a beth ydy'r rheini."*[110]

**101.** Yn ogystal, dywedodd S4C fod angen cynllunio mwy tymor hwy ar feithrin talent na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Nododd y dylai cynllunio ar gyfer swyddi lle y mae galw mawr ddechrau'n ifanc, nid drwy hyfforddiant ôl-16 yn unig.[111]

---

[107] Llywodraeth Cymru: Pontio i fyd gwaith: adroddiad – 26 Gorffennaf 2023
[108] Llywodraeth Cymru: Pontio i fyd gwaith: adroddiad – 26 Gorffennaf 2023
[109] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 76
[110] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 118
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig S4C

## Hyfforddiant ar gyfer y sectorau celfyddydau a cherddoriaeth

**102.** Dywedwyd wrthym nad yw hyfforddiant ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth wedi'i gynnwys yn y cynlluniau sgiliau presennol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth wrthym y canlynol am Gynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol Llywodraeth Cymru:

> *"[It is] more focused towards TV and production, particularly, different Creative Wales stakeholder meetings that I attend tend to focus heavily on the film and TV industry."*[112]

**103.** Yn yr un modd, nododd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru fod sefydliadau fel Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar ffilm a theledu ar hyn o bryd, ac nad oes llwybr gyrfa tebyg yn y celfyddydau a diwylliant.[113] Dywedodd wrthym hefyd ei bod yn arbennig o heriol cadw staff yn y sector a ariennir yn gyhoeddus:

> *"I do think there is a bit of an issue— and we're really feeling it at the minute— where the private sector does benefit, because we are investing and we're not able to retain staff, because we can't compete with pay and working conditions."*[114]

**104.** Wrth ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod llawer o arian yn mynd i dechnoleg ddigidol, cerddoriaeth a phrosiectau ar draws sectorau[115] o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod y grŵp celfyddydau cenedlaethol ieuenctid wedi cael cyllid i helpu i weithio gyda phobl ifanc yn y sector theatr a defnyddio eu sgiliau yn y diwydiannau sgrin.

[112] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 208
[113] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 152
[114] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 219
[115] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 103

Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd fod Cymru Greadigol wedi'i sefydlu i roi mwy o fuddsoddiad mewn sectorau o'r fath ochr yn ochr â'r diwydiannau sgrin.[116]

**105.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, o ystyried llwyddiant y diwydiannau sgrin yng Nghymru, ei fod wedi cael y mwyafrif o gyllid.[117]

## Darparu adnoddau i feithrin sgiliau

**106.** Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch digonolrwydd cyllid ar gyfer meithrin sgiliau yn y diwydiannau creadigol. Gofynnodd ITV Cymru Wales a oedd gan Cymru Greadigol ddigon o adnoddau i allu olrhain effaith y cyllid a'r hyfforddiant a ddarparwyd.[118] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad, dywedodd ITV Cymru Wales y canlynol:

> *"We would like to see further support from public bodies to address the skills shortage in the sector, with the expansion of traineeships, internships and work placement programmes. Vocational training in a professional setting is vital to tackle the issue, and closer links between formal education and the industry is urgently needed."*[119]

**107.** Galwodd S4C am ragor o fuddsoddiad i sicrhau y gall sector cynaliadwy gystadlu gyda'r galw domestig a rhyngwladol arno.[120]

**108.** Rhoddodd y Dirprwy Weinidog sylw i feirniadaeth nad oedd cyllid ar gyfer sgiliau'n ddigonol:

> *"Everything we deliver… we could always do with more money, but £1 million a year I don't think is a bad start for a creative skills fund, and*

[116] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 103
[117] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 102
[118] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 113
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig ITV Cymru Wales
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig S4C

> *we've had a significant number of very positive projects that have benefited in the first year…"*[121]

## Prentisiaethau

**109.** Gall strwythur y diwydiannau creadigol hefyd beri heriau ar gyfer darparu prentisiaethau. Dywedodd Equity y canlynol wrthym:

> *"It's very difficult to place an apprentice on a four-week production. There needs to be a much more creative approach to apprenticeships within the creative industries, because they're not necessarily going to find something that is going to be for the entire period of their apprenticeship."*[122]

**110.** Un ateb a gafodd ei awgrymu fyddai prentisiaid a rennir. Nododd yr enghraifft a roddwyd gan CULT Cymru y byddai theatrau llai'n rhannu prentis gan na fyddai ganddynt ddigon o le i gael un yr un.[123]

**111.** Nododd S4C fod gweithio gyda Cymru Greadigol ar ddatblygu prentisiaethau Cymraeg yn un o'i blaenoriaethau, am fod prinder ar hyn o bryd.[124]

**112.** Pwysleisiwyd pryder bod prinder prentisiaethau mewn tystiolaeth o'r Cyfweliadau a gynhaliwyd gennym. Nododd un arall fod prentisiaethau'n gadarnhaol gan eu bod yn galluogi dysgu gan gydweithiwr profiadol a bod yn "hands-on".[125]

**113.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru y canlynol wrthym:

---

[121] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 86
[122] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 103
[123] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 106
[124] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 22
[125] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru - Ionawr 2023 [PDF 277KB]

- Ar brosiectau a gyllidir, mae mwy na 267 o leoliadau (gan gynnwys lleoliadau prentisiaethau) wedi'u cefnogi ers mis Ionawr 2020;
- Helpodd Cymru Greadigol i sefydlu "Criw", rhaglen prentisiaethau ffilm a theledu.[126]

**114.** Ymhellach, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, oherwydd prinder cyflogwyr mawr, fod y model prentisiaethau a rennir, pan fo prentisiaid yn gweithio gyda busnesau gwahanol, yn gweithio'n dda:

> *"We piloted that in the south-east. Education colleagues recognised that as a real qualification, so we're now rolling it out up into north Wales as well."*[127]

## Cyfleoedd gyrfa

**115.** Roedd Wales Interactive yn teimlo bod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r rolau amrywiol yn y sector gemau cyfrifiadur:

> *"Understanding opportunities as well is a really big key one. All of the varying roles from the industries and that side of things, we just find, sometimes, especially with games, we get lumped into, 'You've got to be a programmer to work in games."*[128]

**116.** Yn yr un modd, dywedodd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth y canlynol wrthym:

> *"I didn't know about jobs like promoters rep or production manager until I was actually already working in the industry. So, I think there's something there about how do we get school-age kids and school*

[126] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[127] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 117
[128] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 195

> *leavers— and people actually outside mainstream education as well— aware of these jobs."*[129]

**117.** Mae Screen Alliance Wales wedi bod yn gwneud gwaith mewn cymunedau lle na fyddai pobl fel arfer fel arfer yn meddwl am ddod i fyd ffilm a theledu ar gyfer gyrfa.[130]. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu gweithdai cymunedol, a chlybiau gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol. Nododd Screen Alliance Wales y bydd amrywiaeth yn well pan ellir denu mwy o bobl i gymunedau o'r fath.[131]

**118.** Dywedodd y cyfweledigion y gwnaethom siarad â hwy wrthym fod prinder o ran gweithredwragedd camerâu; sgiliau yn y diwydiant gemau cyfrifiadur a sgiliau technegol megis rigio.

**119.** Dywedodd Equity fod cynnwys y celfyddydau mynegiannol yn y cwricwlwm newydd yn gam cadarnhaol.[132] Soniodd BBC Cymru Wales am y gwaith y mae'n ei wneud gyda Gyrfa Cymru, drwy'r cwricwlwm newydd, i ddangos ehangder y rolau sydd ar gael yn y sefydliad.[133]

**120.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc[134]. Mae hyn yn cynnwys £2,000,000 (ni roddwyd cyfnod ar gyfer y gwariant hwn) a ddarparwyd i sicrhau bod gan bob coleg addysg bellach Fiwro Cyflogaeth a Menter gwell. Yn ogystal, mae Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn rhoi cyfle i bobl ifanc herio a gwella eu sgiliau. Dywedwyd wrthym fod nifer o gystadlaethau'n cael eu cynnal ar gyfer y diwydiannau creadigol. Mae cystadlaethau o'r fath yn cynnwys Celf Gêm Ddigidol 3D, Dylunio Ffasiwn a

---

[129] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 193
[130] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 187
[131] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 187
[132] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 101
[133] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2023, paragraff 51
[134] Llywodraeth Cymru: Y Warant i Bobl Ifanc – 27 Mawrth 2023

Thechnoleg, Dylunio Graffig, Cynhyrchu Cyfryngau Digidol a Sgiliau Cynhwysol: Cystadleuaeth cyfryngau.[135]

**121.** Esboniodd Llywodraeth Cymru fod Gyrfa Cymru yn gweithio mewn ystod o leoliadau addysg er mwyn helpu "pobl ifanc i gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithlon mewn marchnad swyddi gystadleuol sy'n newid yn barhaus". Mae'r cynnig hwn yn cynnwys[136]:

- Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 yn deall sut y gall y pynciau y byddant yn eu dewis effeithio ar eu syniadau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.
- Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dysgu mwy am eu hopsiynau o ran gyrfa a sut i gymryd y camau nesaf. Byddai hyn yn cynnwys cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.
- Myfyrwyr chweched dosbarth ac addysg bellach yn meithrin eu dealltwriaeth o gyfnodau pontio ôl-18 a'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys cyrsiau addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.

**122.** Mae Gyrfa Cymru hefyd ag offer digidol i helpu dysgwyr i edrych ar lwybrau gyrfa gwahanol yn y diwydiannau creadigol.[137]

**123.** Tynnodd y Dirprwy Weinidog ein sylw hefyd at waith y Rhwydwaith Academïau Sgrin, sydd â "hanes gwych o weithio'n helaeth gydag ysgolion a cholegau, gan ddarparu gwaith allgymorth, dosbarthiadau meistr a lleoliadau profiad gwaith".[138] Bydd yr academïau sgrin newydd yn cefnogi myfyrwyr a chyflogeion sgrin ar ddechrau eu gyrfa ar draws Cymru.[139]

[135] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]
[136] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]
[137] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]
[138] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]
[139] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]

## Ein barn ni

**124.** Nodwyd bwlch sgiliau posibl yn y diwydiannau sgrin pan gynhaliodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ei ymchwiliad yn 2019, a bod hynny o bosibl wedi peri saib ar dwf. Rydym yn credu bod angen cymorth parhaus a sylweddol, o ystyried y twf presennol a manteision gweithlu medrus, brodorol.

**125.** Yn ein tystiolaeth, clywsom fod dulliau presennol o ddatblygu a chynllunio sgiliau'n adweithiol, a bod angen gwaith cynllunio gwell yn y tymor hir. Gwnaethom hefyd nodi'r pryder nad yw'r adnoddau presennol yn ddigonol i reoli'r twf yn y sector. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gweithlu sydd ar gael yn gallu ateb y galw domestig a rhyngwladol arno.

**126.** Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad yn 2019. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Cymru Greadigol a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid ystyried hyn fel nenfwd yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer y diwydiannau creadigol. Mae twf yn y sector sgrin, ac anghenion eraill y sectorau celfyddydau a diwylliant a gyllidir yn gyhoeddus, yn awgrymu bod angen mwy. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru geisio darparu rhagor o gyllid ar gyfer y Gronfa Sgiliau Creadigol. Dylai hyn gyd-fynd â gweithio law yn llaw gyda'r diwydiant i nodi bylchau sgiliau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn credu y dylid gosod y gronfa ar sail tymor hwy er mwyn galluogi cynllunio'r llif sgiliau'n well. Byddai hyn yn golygu cyllid parhaus y tu hwnt i'r ymrwymiad presennol sy'n dod i ben yn 2024. Bydd y camau hyn, yn ein barn ni, yn golygu bod hyfforddiant sgiliau'n llai adweithiol i brinder sgiliau ac yn fwy rhagweithiol wrth ddiwallu anghenion sgiliau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol ac yn gweithio gyda'r diwydiant i nodi bylchau sgiliau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth tymor hwy (y tu hwnt i 2024) a gyllidir ar gyfer datblygu sgiliau yn y diwydiannau creadigol.

**127.** Yn ogystal â sicrhau bod digon o gyllid ar gyfer datblygu sgiliau, mae'n hanfodol denu digon o bobl sydd am weithio yn y diwydiannau creadigol.

Clywsom gan dystion fod angen ymwybyddiaeth well o'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyngor gyrfa a ddarperir mewn lleoliadau addysg yn rhoi gwybodaeth ddigonol am yrfaoedd posibl yn y diwydiannau creadigol.

**128.** Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad "Pontio i fyd gwaith"[140], dylai dysgwyr allu cael profiad o ystod o weithleoedd gwahanol. Credwn fod rhywfaint o arfer da eisoes ar waith, megis darlledwyr yn ymweld ag ysgolion, ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch, a gweithdai cymunedol. Tynnwyd sylw at enghreifftiau o waith tebyg gan y Dirprwy Weinidog yn ysgrifenedig yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth. Ond, mae llawer o'r gweithgarwch hwn wedi'i gydblethu â chymorth ar gyfer gyrfaoedd yn fwy cyffredinol. Rydym yn credu bod cwmpas i gael mwy o gymorth wedi'i dargedu'n benodol at y diwydiannau creadigol.

**129.** O ystyried twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru, rydym yn disgwyl y bydd galw mawr am y sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol. Fodd bynnag, er bod rôl i'r llywodraeth arwain ar hyn, rydym yn credu nad yw gweithio ar y cyd yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru yn unig.

**130.** I'r perwyl hwnnw, credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, a'r diwydiant ehangach, i greu llwybrau gyrfa clir, ac i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael iddynt yn y diwydiannau creadigol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn erbyn y flwyddyn ariannol nesaf ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda'i chynlluniau. Fel rhan o hyn, hoffem hefyd gael sicrwydd ar y wybodaeth a roddir drwy wasanaethau cynghori gyrfaoedd i ddysgwyr am yrfaoedd yn y diwydiannau creadigol. Mae'r argymhelliad hwn yn gyson â thri argymhelliad cyntaf yr adroddiad "Pontio i fyd gwaith".

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag ysgolion, darparwyr addysg a'r diwydiannau creadigol i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd gyrfa, a bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y

[140] Llywodraeth Cymru: Pontio i fyd gwaith: adroddiad – 26 Gorffennaf 2023


diwydiannau creadigol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth 2024 gydag amlinelliad o sut y bydd yn gwneud hyn.

# 6. Cymorth ehangach ar gyfer y diwydiannau creadigol

**131.** Ers dechrau pandemig Covid-19, mae sefydliadau'r celfyddydau a diwylliant wedi wynebu nifer o fygythiadau. O ystyried y pwysau ariannol ar rai agweddau ar y diwydiannau creadigol, clywsom ystod o alwadau am gymorth ehangach ar gyfer y diwydiant.

**132.** Un o'r heriau yw nad yw cynulleidfaoedd wedi dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig. Mae'r dangosyddion celfyddydau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod llai o bob math o bresenoldeb o'i gymharu â chyn Covid-19. Mae nifer y bobl sy'n mynd i ddigwyddiad diwylliannol neu'n cymryd rhan ynddo dair gwaith neu fwy y flwyddyn wedi gostwng o 70 y cant i 65 y cant.[141] Mae'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth wedi dweud, yn flaenorol, fod nifer y digwyddiadau mewn lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad wedi gostwng 17 y cant o'i chymharu â 2019 (y flwyddyn cyn y pandemig).[142]

**Presenoldeb yn y celfyddydau (2019-20 a 2022-23)**[143]




[141] Llywodraeth Cymru: Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 – 11 Gorffennaf 2023
[142] Music Venue Trust: Adroddiad Blynyddol 2022 (Saesneg yn unig) – Ionawr [PDF 5.7MB]
[143] Arolwg Cenedlaethol Cymru

**133.** Galwodd Ffilm Cymru am fwy o gymorth ar gyfer sinemâu:

> *"I think it's really important to have not a cultural recovery fund on the scale that we've seen, with Treasury support, but that we do look at exhibition. […] If they collapse, that's the whole of the independent film financing model that they take with it. So, it's a big concern."*[144]

**134.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod cymorth ar gyfer cynyrchiadau sgrin wedi'i ledaenu ar draws prosiectau brodorol a mewnfuddsoddi. Dywedodd fod y dull hwn yn creu amgylchedd i ganiatáu i gwmnïau yng Nghymru dyfu.[145] Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio lledaenu'r twf hwn ar draws y wlad:

> *"We've seen, recently, the development of the Aria studios in Anglesey, so that's one example of where we're trying to spread that investment, and we're also working closely to provide funding for Gogledd Creadigol in north Wales as well. We're really trying to build on the success of what we've seen in south-east Wales and spread that to other parts of Wales, and we're certainly seeing that investment in the north now."*[146]

**135.** Amlinellodd y Dirprwy Weinidog hefyd y cymorth ar gyfer sinemâu. Mae Llywodraeth Cymru, eleni, wedi darparu £33,500 i Ganolfan Ffilm Cymru gefnogi gweithgareddau hybu cynulleidfaoedd mewn sinemâu. Nododd y Dirprwy Weinidog fod Sefydliad Ffilm Prydain hefyd yn darparu cymorth ariannol i

[144] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 168
[145] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 22
[146] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 29

ganolfannau[147] ar draws y DU i gefnogi sinemâu annibynnol. Nododd fod Canolfan Ffilm Cymru yn cael tua £200,000 yn flynyddol o'r gronfa honno.[148]

**136.** Yn ysgrifenedig, yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, nododd y Dirprwy Weinidog fod Cyngor y Celfyddydau'n casglu gwybodaeth am ffigurau cynulleidfa drwy ei arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ar gyfer 2022/23[149] a darparodd linc i ddata ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn ei llythyr, nodir y bu cynnydd bach ym mhresenoldeb cynulleidfaoedd y llynedd ond nid yw'r ffigyrau wedi cyrraedd y lefelau cyn y pandemig. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog nad yw gwybodaeth sy'n ymwneud â ffigurau cynulleidfa yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru yn unig yn cael ei chasglu ar hyn o bryd.[150]

**137.** At hynny, gwnaethom drafod gwerth cyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol i'r diwydiannau creadigol.

**138.** Galwodd Equity ar Lywodraeth y DU i gyflwyno incwm sylfaenol i weithwyr creadigol yn y DU. Mae Equity yn dweud y byddai'n ddefnyddiol i'w aelodau sy'n dechrau eu gyrfa nad ydynt wedi cael y cyfle eto i feithrin portffolio a sefydlu rhwydweithiau yn y diwydiant.[151] Nododd y byddai cynllun o'r fath yn golygu darparu taliad cyffredinol syml i bob artist bob mis, yn debyg i'r cynllun peilot incwm sylfaenol yng Ngweriniaeth Iwerddon.[152]

**139.** Dywedodd Ffilm Cymru y gallai hynny fod o werth i bobl yng nghamau cynnar eu gyrfaoedd.[153]

**140.** Dywedodd yr Athro Justin Lewis (Prifysgol Caerdydd) fod cyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol yn un o'r atebion o bosibl i ansicrwydd llafur yn y

---

[147] Mae Canolfannau Ffilm yn rhwydwaith o ganolfannau ledled y DU sy'n cyllido, yn hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n dangos ffilmiau, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg.
[148] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 25 Mai 2023, paragraff 135
[149] Cyngor Celfyddydau Cymru: Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2021-2022 – 12 Mai 2023 [PDF 1.3MB]
[150] Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023 [PDF 303KB]
[151] Tystiolaeth ychwanegol gan Equity
[152] Tystiolaeth ychwanegol gan Equity
[153] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 30 Tachwedd 2022, paragraff 222

diwydiannau creadigol.[154] Dywedodd Cyngor y Celfyddydau, er ei fod yn cydnabod ei fod yn ateb tymor hir, y byddai'n rhoi "sylfaen inni adeiladu arni a sicrhau bod gennym ni sector sydd yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol."

## Ein barn ni

**141.** Rydym yn pryderu am yr effaith y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar leoliadau celfyddydau a cherddoriaeth yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd, nid yw lefelau'r cynulleidfaoedd (ffrwd incwm allweddol ar gyfer lleoliadau celfyddydau a cherddoriaeth) wedi dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig. Ar yr un pryd, mae'r sector hefyd yn gorfod ymdrin â chostau ynni uwch.

**142.** Rydym wedi mynegi pryderon yn y gorffennol y bydd yn rhaid i leoliadau celfyddydau godi prisiau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Yn ein hadroddiad, Costau cynyddol: Yr effaith ar ddiwylliant a chwaraeon[155], amlinellwyd pryderon y byddai cynnydd prisiau o'r fath yn atal pobl o gefndiroedd llai cefnog rhag cymryd rhan yn y celfyddydau. Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth yn ystod y pandemig yn briodol i gynnal y sector hwn, ac mae wedi darparu ychydig o gyllid ychwanegol ers hynny. Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu y byddai'r buddsoddiad hwn yn wastraff pe na bai rhagor o gymorth yn cael ei ddarparu.

**143.** O ystyried hyn oll, credwn fod angen asesiad o gyflwr lleoliadau celfyddydau yng Nghymru (gan gynnwys theatrau a lleoliadau cerddoriaeth). Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor y Celfyddydau, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth a sefydliadau eraill, i asesu cyflwr lleoliadau celfyddydau a cherddoriaeth yng Nghymru. Fel rhan o'r asesiad hwn, dylid ystyried y lefelau presenoldeb presennol a sicrwydd ariannol lleoliadau o'r fath. Pan fydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau, rydym yn credu y byddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i benderfynu pa gymorth arall sydd ei angen ar gyfer lleoliadau celfyddydau a cherddoriaeth.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o gyflwr ariannol lleoliadau celfyddydau yng Nghymru mewn cydweithrediad â Chyngor

---

[154] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 26 Hydref 2022, paragraff 95
[155] Adroddiad y Pwyllgor: Costau cynyddol: Yr effaith ar ddiwylliant a Chwaraeon – Tachwedd 2022 [PDF 243KB]

Celfyddydau Cymru, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth a sefydliadau addas eraill. Dylid cwblhau'r asesiad hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn i ragor o gymorth gael ei ddarparu os oes angen.

**144.** Rydym hefyd yn pryderu am y rhybuddion a wnaed am gwymp posibl y sector sinema yng Nghymru. Pe bai'r sector hwn yn cwympo, gallai gael effaith sylweddol ar y farchnad ffilm annibynnol. Fel yn achos celfyddydau a lleoliadau, rydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru asesu cyflwr y sector hwn ar frys ac y dylai weithio gyda Ffilm Cymru i wneud hyn. Dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn i ragor o gymorth gael ei ddarparu ar unwaith.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad brys o gyflwr y sector sinema mewn cydweithrediad â Ffilm Cymru. Dylid cwblhau'r asesiad hwn cyn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn i ragor o gymorth gael ei ddarparu os oes angen.

**145.** Rydym hefyd yn nodi'r datblygiadau o ran y cynllun peilot incwm sylfaenol yn Iwerddon. Fel yr amlinellwyd eisoes, o ystyried ansicrwydd y sectorau celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth ar hyn o bryd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniad y cynllun peilot ar yr adeg briodol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniadau cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer y Celfyddydau gan Lywodraeth Iwerddon ar yr adeg briodol.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **26 Hydref 2022** | **Yr Athro Justin Lewis, Athro Cyfathrebu a Diwydiannau Creadigol,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Tom Ware, Deon Cyswllt, Trawsnewid Cyfryngau a Phartneriaethau, Cyfadran Busnes a'r Diwydiannau Creadigol,**<br>Prifysgol De Cymru<br>**Dafydd Rhys, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Gillian Mitchell, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru<br>**Clara Cullen, Rheolwr Cymorth Lleoliadau,**<br>Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth |
| **30 Tachwedd 2022** | **Andy Warnock, Swyddog Rhanbarthol Cymru a De-orllewin Lloegr,**<br>Undeb y Cerddorion<br>**Simon Curtis, Trefnydd Cenedlaethol a Rhanbarthol, Cymru a De-orllewin Lloegr,**<br>Equity<br>**Carwyn Donovan, Swyddog Negodi Cymru,**<br>Yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr<br>**Pauline Burt, Prif Weithredwr,**<br>Ffilm Cymru<br>**Gabriella Ricci, Swyddog Gweithredol Cynhyrchu,**<br>Stiwdios Bad Wolf<br>**Allison Dowzell, Rheolwr Gyfarwyddwr,**<br>Screen Alliance Wales |

| | |
|---|---|
| | **Richard Pring, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr,**<br>Wales Interactive<br>**Siân Gale, Rheolwr Sgiliau a Datblygu,**<br>CULT Cymru |
| **11 Ionawr 2023** | **Siân Gwynedd, Pennaeth Pobl, Diwylliant a Phartneriaethau,**<br>BBC Cymru Wales<br>**Siân Doyle, Prif Weithredwr,**<br>S4C<br>**Nia Britton, Rheolwr Gweithrediadau,**<br>ITV Cymru Wales |
| **25 Mai 2023** | **Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Gerwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar **wefan y Pwyllgor**.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CIWF 01** | Canolfan y Cyfryngau a Diwylliant mewn Cenhedloedd Bychain |
| **CIWF 02** | IWA |
| **CIWF 03** | Malcolm Henson (Unigolyn) |
| **CIWF 04** | Media Cymru |
| **CIWF 05** | Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth |
| **CIWF 06** | Prifysgol De Cymru |
| **CIWF 07** | Aelodau Cyhoeddi Cymru |
| **CIWF 08** | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **CIWF 09** | Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru |
| **CIWF 10** | Cyngor Llyfrau Cymru |
| **CIWF 11** | Grŵp Clwstwr Creadigol |
| **CIWF 12** | Grŵp Rhanddeiliaid Menter Gymdeithasol |
| **CIWF 13** | Equity |
| **CIWF 14** | Undeb y Cerddorion |
| **CIWF 15** | TAC |
| **CIWF 16** | Ffilm Cymru |
| **CIWF 17** | ITV Cymru Wales |
| **CIWF 18** | BBC Cymru Wales |
| **CIWF 19** | S4C |